**Tasg 1**

# Calon yr Aztec

Sut ydych chi'n meddwl ein bod ni heddiw'n gwybod am hanes aberth yr Azteciaid? Pa dystiolaeth sydd gyda ni o'r arfer?

Beth yw eich barn chi ynglŷn â'r arfer hynafol hwn o gynnig aberth byw i'r duwiau?

Ai'r Azteciaid oedd yr unig bobl i wneud hyn? Chwiliwch mewn llyfrau hanes neu ar y we i weld os oes yna enghreifftiau eraill o hyn yn digwydd ar hyd yr oesoedd. Efallai bod enghreifftiau o hanes yr Eifftiaid neu o'r Beibl?